Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Gwydir
# Heol Watling
# Llanrwst
# Conwy
# LL26 0EY

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Gwydir

Lleolir Ysgol Gynradd Bro Gwydir yng nghanol tref Llanrwst yng Nghonwy.  Daw rhan fwyaf y disgyblion o'r dref ac ychydig o'r ardal wledig neu o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.  Mae 351 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 44 oed meithrin rhan-amser.  Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 12 dosbarth oed cymysg.  Lleolir canolfan adnodd anghenion dysgu ychwanegol y dalgylch yn yr ysgol ac mae 12 o ddisgyblion yn ei mynychu am bum bore'r wythnos.

Tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%.  Mae tua 33% y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 28% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth a'r dirpwy i'w swyddi ym mis Medi 2012.  Y dirprwy bennaeth oedd yng ngofal yr ysgol yn ystod yr arolygiad.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae safonau lles ac agweddau bron bob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli yno. Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a symbylus sy'n datblygu unigolion i fod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn cyflawni'n dda ac yn defnyddio eu medrau i safon uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i ethos yr ysgol. Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol. Mae hyn wedi arwain at gymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu gan ei gilydd yn effeithiol iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data a modelu TGCh ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae cynllunio strategol yn gwella deilliannau a lles disgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechraur yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i'r mwyafrif. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth adnodd yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn unol â'u galluoedd. Gwnânt gynnydd cadarn o ran cyflawni eu targedau llythrennedd a rhifedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill. Mae medrau llafar disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym, er enghraifft wrth i ddisgyblion y dosbarth derbyn drafod anifeiliaid yr Arctig. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod y difrod mae'r tri mochyn bach drwg wedi ei wneud i'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau grŵp, gan fynegi barn yn glir ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod cynnwys llyfr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, gall bron bob disgybl ddefnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen camau i'w dilyn wrth gynnal ymchwiliad gwyddonol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau yn gymwys i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth ddysgu am ddyfeiswyr enwog o oes Fictoria.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan ddechrau defnyddio cystrawen briodol a geirfa sy'n gysylltiedig â'r thema, er enghraifft wrth ysgrifennu poster yn hysbysu beth sydd ei angen ar fabi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu ffeil o ffeithiau am gerddor enwog neu wrth ysgrifennu pamffled am ddathliad crefyddol Diwali.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft i

gefnogi eu gwaith ar gartrefi neu wrth ddatrys problemau arian am y Brenin Ravana. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth drefnu taith i wersyll Glanllyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd cyhoeddi i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd lliwgar a deniadol, er enghraifft wrth greu pamffled am eu hymweliad â Chastell Dolwyddelan. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi lliw llygaid aelodau'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am gysawd yr haul. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno'u gwaith, er enghraifft ar sut le oedd Llandudno yn oes Fictoria. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni'n annibynnol ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safon lles ac agwedd bron bob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel. Mae disgyblion yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel arbennig o barch ac aeddfedrwydd. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfeillion, er enghraifft wrth helpu ei gilydd yn ystod amseroedd cinio. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau mynychu'n gyson. Maent yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'u hardal leol.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli yno. Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, hyderus ac annibynnol sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Enghreifftiau gwych o hyn yw'r clwb codi hyder, y clwb hanner awr wythnosol, a'r clwb antur fawr sy'n magu hyder a hunan-barch disgyblion ac yn eu helpu i ymdrin â methiant yn aeddfed ac i oresgyn her yn eu bywydau. Amlygir hyn yn llwyddiant disgyblion wrth drefnu taith antur yn yr awyr agored.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn dysgu. Mae gallu'r disgyblion i wella'u dysgu eu hunain yn dda iawn. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda iawn o sut i wella eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Enghraifft wych o hyn yw aeddfedrwydd grŵp o ddisgyblion hŷn wrth drafod eu llwyddiant mewn cystadleuaeth beirianneg genedlaethol.

Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r ysgol. Maent yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn ddiolchgar bod arweinwyr yn ymddiried ynddynt ac yn cymryd eu syniadau o ddifrif. Maent yn gwneud hyn drwy gyfrwng amrywiaeth o bwyllgorau, sy'n cynnwys y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r dreigiau digidol. Mae aelodau yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Agwedd gref iawn yw cyfraniad disgyblion wrth ddatblygu blaenoriaethau'r gwella'r ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn creu eu cynllun eu hunain sy'n amlinellu'n glir rôl disgyblion wrth weithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau. Caiff hyn effaith ragorol ar ddealltwriaeth ac ymdeimlad y disgyblion o berchnogaeth dros eu hysgol. Enghraifft effeithiol o hyn yw ymrwymiad y cyngor ysgol i ddatblygu'r Siarter Iaith.

Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth disgyblion o'r gwahanol agweddau ar eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau cymunedol, er enghraifft i ymweld â chartref Hafan Gwydir. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion a thrigolion y cartref gydweithio ar brosiectau celf a dawns ac i'r dreigiau digidol gynnig hyfforddiant TGCh. Maent hefyd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at elusennau lleol. Caiff hyn effaith gadarn iawn ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae dealltwriaeth bron bob disgybl am bwysigrwydd cadw'n iach trwy yfed a bwyta'n synhwyrol a chyfranogi mewn gweithgareddau corfforol yn aeddfed. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllun bwyd o bwys (BOBS) sy'n datblygu medrau coginio disgyblion, a'r siop ffrwythau sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion yr adnodd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol sydd ar gael ac mae llawer yn eu mynychu'n rheolaidd ac yn cystadlu mewn gemau cyfeillgar gyda thimau o ysgolion cyfagos. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol. Mae bron bob un yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref, ar y ffordd ac ar-lein.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol a datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu.

Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Trwy gydweithio effeithiol ac arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymroi'n llawn yn eu gwersi. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm, ac maent yn darparu tasgau a heriau sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol, yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau. Yn yr ychydig o'r dosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Mae'r athrawon yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn i ddatblygu medrau'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion o allu uwch. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Yn yr ychydig o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r athrawon bob tro'n herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae cyfleoedd cynhwysfawr i ddatblygu'r medrau hyn mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh i gywain a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau trin data a modelu wedi datblygu'n ddigon effeithiol er mwyn i ddisgyblion gymhwyso'u medrau TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Anogir disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym ac i drefnu ymyrraeth briodol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel iawn i dargedu grwpiau ffocws disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynorthwywyr yn chwarae rhan bwysig dan arweiniad yr athrawon neu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel iawn. Mae hyn yn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae cynlluniau addysg unigol yn gryno a chlir. Mae'r cynlluniau'n cynnwys targedau realistig sy'n herio ac yn cynorthwyo disgyblion i wella'u dysgu a datblygu medrau newydd. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni a'u haddasu yn bwrpasol. Mae'r ysgol yn flaenllaw wrth ddatblygu proffil unigol i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â diwygiadau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r ysgol yn manteisio'n sylweddol ar gyfleoedd i gydweithio â nifer o asiantaethau arbenigol. Er enghraifft, mae cysylltiadau buddiol gyda thimau iaith a lleferydd ac awtistiaeth yn sicrhau cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae partneriaeth ragorol yn bodoli rhwng yr ysgol â rhieni a'r gymuned, sy'n hybu diwylliant agored a chydweithredol. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth arbennig rhieni. Mae'r partneriaethau hynod effeithiol sydd gan yr ysgol â gwasanaethau cymdeithasol yn golygu eu bod yn cydweithio i deilwra pecynnau o gymorth sy'n bodloni anghenion teuluoedd unigol. Enghraifft wych yw'r bartneriaeth gref sy'n bodoli rhwng yr ysgol â Chanolfan Deulu Llanrwst, sy'n meithrin a hybu ymgysylltiad teuluol drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r rhieni a'u plant gydweithio. Mae'r grŵp cefnogi rhieni yn cynnig cefnogaeth werthfawr i deuluoedd i baratoi eu plant ifanc ar gyfer addysg amser llawn. Mae hyn yn hyrwyddo medrau cymdeithasol yn effeithiol iawn, er enghraifft trwy hybu medrau iaith trwy chwarae. Mae'r bartneriaeth â chanolfan awyr agored leol yn cynnig cyfleoedd arloesol i ddisgyblion a'u rhieni gydweithio wrth drefnu'r 'Antur Fawr'. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at fagu hyder a hunanddelwedd gadarnhaol. Mae'r ysgol yn flaengar wrth drefnu boreau ymgysylltu i hybu dealltwriaeth rhieni o'r dulliau dysgu a ddefnyddir, er enghraifft i ddysgu rhifedd a darllen, a sut y gall strategaethau penodol hybu medrau bywyd eu plant. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac, o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud adre i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus iawn. Mae staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl, neu ar agweddau fel parch a chydraddoldeb. Elfen eithriadol o waith yr ysgol yw'r pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol a dyfalbarhad personol drwy strategaeth lles yr ysgol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ymddygiad disgyblion. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau drwy 'Llais y Plentyn' yn y dosbarth a thrwy weithgarwch llwyddiannus y cyngor ysgol, er enghraifft i drefnu gig cerddorol fel rhan o hybu'r Siarter Iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn ardderchog. Gwneir defnydd helaeth o ymwelwyr i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion, er enghraifft cyfansoddwyr lleol i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o cerddoriaeth Gymreig gyfoes. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder a'u gallu i gydweithio ag eraill. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu llwyddiant mewn gweithgareddau chwaraeon, wrth gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a'r ŵyl cerdd dant, yn ogystal â'u perfformiadau yn y gymuned.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach yn eu bywydau, ac mae ganddi drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau creu bocs bwyd iach gan y grŵp cefnogi rhieni. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion.

Mae trefniadau diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnig arweinyddiaeth flaengar a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau

uchel iawn ac mae'r ddau yn angerddol iawn am y gymuned maent yn ei gwasanaethu. Maent yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth i'r ysgol sy'n canolbwyntio ar Gymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau glas.

Mae strwythur rheoli'r ysgol o safon uchel iawn ac wedi ei sefydlu'n gadarn. Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur rhwng yr holl staff. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn defnyddio'u cryfderau a'u cymwysterau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf. Mae trefniadau effeithiol a phenodol iawn ar waith i lywio datblygiad parhaus y staff. Mae'r drefn o sicrhau bod pob aelod o'r uwch dîm rheoli yn arwain ar agweddau penodol o'r cynllun datblygu ysgol ac yn cydweithio'n agos ag athrawon yn gryfder amlwg. Mae arweinwyr yn mentora athrawon newydd yn effeithiol iawn ac yn sicrhau cysondeb mewn darpariaeth trwy'r ysgol.

Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol, gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn hynod o drylwyr ac wedi eu sefydlu yn gadarn dros amser. Mae'n tynnu ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad disgyblion ac arfarniadau monitro cynhwysfawr o safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae arweinwyr yn gwrando'n ofalus ar farn rhieni a disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd mae'r ysgol wedi newid y trefniadau ben bore ar gais y rhieni, a natur gwaith cartref ar gais disgyblion. Cryfder yn y broses hunanarfarnu yw'r ffordd mae pob aelod o staff yn rhannu eu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd. O ganlyniad, mae gan yr holl athrawon ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol, y meysydd i'w datblygu ymhellach, a'u cyfrifoldebau yn y broses.

Mae hyn wedi arwain at gymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn mewn timoedd. Er engraifft, mae athrawon yn gweithio'n llwyddiannus o fewn triawdau dysgu sy'n rhoi cyfleoedd iddynt arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion gyda'i gilydd er mwyn tracio'u cynnydd. Mae hyn wedi arwain at strategaethau addysgu cytûn gyda phwyslais amlwg ar sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol yn y dysgu. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu wedi gwella ac mae disgyblion yn datblygu medrau dyfalbarhau a dyfeisgarwch sy'n eu galluogi i wynebu heriau yn hyderus a sicrhau cynnydd yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn glir am y blaenoriaethau sydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. Mae blaenoriaethau wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r weithdrefnau hunanarfarnu, yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a chodi safonau ac wedi eu costio'n ofalus. Mae gan yr uwch dîm rheoli berchnogaeth gref unigol yn y broses. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiad trylwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella yn flynyddol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliant amlwg yn natblygiad mathemategol a rhifedd disgyblion dros gyfnod.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau cyson â'r ysgol, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth

gadarn a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a systemau'r ysgol.  Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol.  Enghraifft dda o hyn oedd yr is-bwyllgor data yn herio perfformiad disgyblion yn y prawf darllen cenedlaethol.  O ganlyniad, mae'r ysgol wedi mabwysiadu nifer o strategaethau darllen cytûn sydd wedi arwain at wella medrau darllen Cymraeg disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn ofalus.  Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion.  Enghraifft wych o hyn yw'r cynllun 'antur fawr' arloesol sy'n targedu disgyblion a'u rhieni er mwyn lles disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018